COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y SIR A GYNHALIWYD
AR ZOOM, AR NOS FERCHER 30AIN O FEDI 2020

Cadeirydd: Mr Ifan Davies, Llywydd y Sir

Ymddiheuriadau: Mary Davies; Gwyneth Ayers; Emyr ac Ada Evans; Ben Lake; Elin Jones; Gareth Evans; Nia Evans; Heather Price; Iestyn Davies; Caryl George; John Green; Gwynne Davies; Gethin Davies; Llew Morgan; Meirian Morgan; Iwan Thomas; Glyn Davies; Ruth Evans a Ian Evans

Presennol: 36 yn ôl llyfr presenoldeb

Wrth law: Anne Jones, Trefnydd y Sir

Cyn dechrau'r cyfarfod, croesawodd y Llywydd pawb i'r cyfarfod blynyddol ar Zoom ac yn ôl yr arfer, wrth gynnal AGM cafwyd 2 funud o dawelwch i gofio am y rhai oedd wedi ein gadael.

1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cynigiwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir gan Caryl Haf Jones ac eiliwyd gan Sioned Davies.

2. Materion yn codi o'r cofnodion

Nid oedd yna faterion yn codi.

3. Gohebiaeth

Clwb 200 y Sir – cysylltu gydag Anne

Prosiect Yfory – Heledd Gwyndaf – gair ar ddiwedd y cyfarfod

4. Cyfrifon ariannol y Sir (adroddiad gan Mr Eryl Jones)

Aethpwyd drwy'r fantolen ariannol a nododd Eryl o dan yr amgylchiadau bod yna golled i'r Mudiad eleni. Cynigiwyd fod y cyfrifon yn gywir gan Einir Ryder ac eiliwyd y cynnig gan David Davies. Diolchodd y Llywydd i Eryl Jones am ei waith dros y flwyddyn.

5. Adroddiad gan Gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Elin Rattray. Llongyfarchodd y Llywydd Elin ar ei llwyddiant ar ddod yn runner-up yn Aelod Iau NFYFC.

6. Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Materion Gwledig y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Dyfrig Williams.

7. Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Elin Calan Jones.

8. Adroddiad Trefnydd y Sir

Derbyniwyd adroddiad gan Anne Jones, Trefnydd y Sir.

9. Adroddiad Llywydd y Sir

Derbyniwyd gair gan Ifan Davies, a diolchodd am y fraint o gael bod yn Llywydd am y flwyddyn ddiwethaf.

Trosglwyddwyd y gadeiryddiaeth i Einir Ryder, Cadeirydd Is-bwyllgor Rheoli a Chyllid y Sir i gadeirio y rhan gyntaf o'r pwynt nesaf.

10. Ethol Llywydd a Darpar Lywydd y Sir am y flwyddyn 2020/2021

Ail-etholwyd Ifan Davies fel Llywydd y Sir am y flwyddyn 2020/2021 gan Dewi Jones ac eiliwyd y cynigiad gan Sioned Davies. Derbyniodd a diolchodd Ifan i'r Mudiad am yr anrhydedd o gael ei ail-ethol i'r swydd.

Trosglwyddwyd y gadeiryddiaeth yn ôl i Ifan Davies
Ail-etholwyd Siôn Jenkins fel Is-Lywydd y Sir am y flwyddyn 2020/2021 gan Endaf Griffiths ac eiliwyd y cynigiad gan Teleri Evans. Derbyniodd a diolchodd Siôn am y fraint o gael ei ail-ethol i'r swydd.

11. **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Sir am y flwyddyn 2020/2021**

Ail-etholwyd Esyllt Ellis Jones fel Cadeirydd y Sir am y flwyddyn 2020/2021 gan Elin Calan Jones ac eiliwyd y cynigiad gan Elliw Dafydd. Diolchodd Esyllt i'r pwyllgor am ei hail-ethol a derbyniodd y swydd.

Ail-etholwyd Bleddyn Davies fel Is-Gadeirydd y Sir am y flwyddyn 2020/2021 gan Anest James ac eiliwyd y cynigiad gan Fflur Davies. Derbyniodd Bleddyn y swydd.

12. **Dewis Is-lywyddion ac Archwilwyr**

Aethpwyd drwy'r rhestr yn fanwl.

Cynigwyd enw Eryl Jones i fod yn archwilydd y sir gan Lauren Jones ac eiliwyd y cynigiad gan Cennydd Jones. Derbyniodd Eryl y swydd.

Cynigwyd enw Aled Davies i fod yn Is-drysorydd y Sir gan Bleddyn Davies ac eiliwyd y cynigiad gan Rhodri Griffiths. Derbyniodd Aled y swydd.

13. **Trafodaeth am Tâl Aelodaeth**

Mi wnaeth Esyllt Ellis-Jones egluro pris y tâl aelodaeth fel yr oedd sef 10-17 - £22; 18-22 - £25; 23-27 - £27; aelodau cyswllt - £17. Hefyd fe wnaeth Esyllt egluro fod y lefi cenedlaethol yn £25.80 am 2020/2021. Codwyd y pwynt o beth fyddai'r aelodau yn derbyn am y flwyddyn sydd i ddod o dan yr amgylchiadau gyda Covid 19. Cafwyd trafodaeth ddiddorol am y lefi a beth oedd yr aelodau yn elwa o fod yn aelod. I symud ymlaen awgrymwyd i ddanfon gwahanol senarios allan i'r Clybiau er mwyn iddynt eu hystyried ac hefyd i ddanfon llythyr ar ran y Sir i C.Ff.I. Cymru ac i NFYFC am eglurhad pam gofyn am dâl aelodaeth eleni.

14. **Cwpan y cynnydd yn aelodaeth**

Er gwaethaf y flwyddyn a gafwyd y llynedd mae'n braf nodi bod rhai clybiau wedi gweld cynnydd yn yr aelodaeth eleni: Bro'r Dderi; Llanddeiniol; Llanilar; Llanwenog a Pontsian

CANLYNIADAU

4ydd	-	Pontsian	-	3.33%
3ydd	-	Bro'r Dderi	-	13.04%
2il	-	Llanddeiniol	-	23.07%
1af	-	Llanilar	-	100%

15. Prosiect Yfory

Cafwyd gair byr gan Heledd Gwyndaf ynghylch â Phrosiect Yfory. Penderfynwyd i gynnal trafodaeth ymhellach ar lefel Sirol gan fod yr amser wedi mynd ymlaen ar y noson.

16. Diolchiadau

Cynigiwyd y pleidlais o ddiolch gan Bleddyn Davies, Is-gadeirydd y Sir.

Cyn cloi'r cyfarfod gwnaeth y Llywydd ategu'r diolchiadau, a cyhoeddodd os oedd rhywun yn dymuno ymaelodi gyda Chlwb 200 y Sir am £20 y flwyddyn neu i archebu copi o Cwysi Ceredigion am bris o £4.00 i gysylltu gydag Anne yn y Swyddfa.